WELSH REGION PLAN SUMMARY

RHANBARTH CYMRU CRYNODEB CYNLLUN

1991/92

AAC

Awdurdod Afonydd Cenedlaethol

Diogelwyr
Amgylchedd Dŵr

NRA

National Rivers Authority

Guardians of
the Water Environment

WELSH REGION

Introduction

Established on 1st September 1989, the National Rivers Authority (NRA) came into being as a result of the 1989 Water Act and was created as a public body whose main task it is to protect and improve the water environment in England and Wales and provide protection against flooding from rivers and the sea. The first full year of independent operation was completed on 31st March 1991.

Head Office functions of the Authority are split between London and Bristol, but its operational activities devolve on ten Regions based on the former Water Authority areas.

This document, one of a set of ten, seeks to explain a little of Welsh Region NRA's background and shows how the Authority's national aims as set out in its 1991/92 *Corporate Plan* will be translated into Regional action.

Mission Statement

The National Rivers Authority will protect and improve the water environment. This will be achieved through effective management of water resources and by substantial reductions in pollution. The Authority aims to provide effective defence for people and property against flooding from rivers and the sea. In discharging its duties it will operate openly and balance the interests of all who benefit from and use rivers, ground waters, estuaries and coastal waters. The Authority will be businesslike, efficient and caring towards its employees.

Aims:

- to achieve a continuing improvement in the quality of rivers, estuaries and coastal waters, through the control of water pollution;
- to assess, manage, plan and conserve water resources and to maintain and improve the quality of water for all those who use it;
- to provide effective defence for people and property against flooding from rivers and the sea;
- to provide adequate arrangements for flood forecasting and warning;
- to maintain, improve and develop fisheries;
- to develop the amenity and recreation potential of waters and lands under NRA control;
- to conserve and enhance wildlife, landscape and archaeological features associated with water under NRA control;
- to improve and maintain inland waterways and their facilities for use by the public where the NRA is the navigation authority;
- to ensure that dischargers pay the cost of the consequences of their discharges and, as far as possible, to recover the cost of water environment improvements from those who benefit;
- to improve public understanding of the water environment and the NRA's work;
- to improve efficiency in the exercise of the NRA's functions and to provide challenge and opportunity for employees and show concern for their welfare.

RHANBARTH CYMRU

Cyflwyniad

Sefydlwyd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (AAC) ar 1 Medi 1989 a daeth i fodolaeth yn sgil Deddf Dŵr 1989 a'i greu'n gorff cyhoeddus. Ei brif dasg yw diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr yng Nghymru a Lloegr a darparu diogelwch rhag llifogydd o afonydd a'r môr. Daeth y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu annibynnol i ben ar 31 Mawrth 1991.

Rhennir swyddogaethau Prif Swyddfa'r Awdurdod rhwng Llundain a Bryste, ond mae ei weithgareddau gweithredol wedi eu dirprwyo i ddeg Rhanbarth yn seiliedig ar ardaloedd yr hen Awdurdodau Dŵr.

Mae'r ddogfen hon, sy'n un o ddeg, yn ceisio egluro ychydig ar gefndir Rhanbarth Cymru o'r AAC gan ddangos sut y caiff amcanion cenedlaethol yr Awdurdod, fel y gosodwyd allan yn ei *Gynllun Corfforaethol* 1991/92, eu troi'n weithredu rhanbarthol.

Datganiad O'r Pwrpas

Bydd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr. Gwneir hynny drwy reoli adnoddau dŵr yn effeithiol a thrwy leihau llygredd yn sylweddol. Mae'r Awdurdod yn anelu at ddarparu amddiffynfa effeithiol i bobl ac eiddo rhag llifogydd o afonydd a'r môr. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau bydd yn gweithredu'n agored ac yn cydbwyso buddiannau pawb sy'n elwa o ddefnyddio afonydd, dŵr tir, aberoedd a dyfroedd y glannau. Bydd yr Awdurdod yn gweithredu mewn ffordd drefnus, effeithiol a gofalus tuag at ei weithwyr.

Y Nod:

- cael gwelliant parhaus yn ansawdd afonydd, aberoedd a dyfroedd y glannau drwy reoli llygredd dŵr;
- asesu, rheoli, cynllunio a diogelu adnoddau dŵr a chynnal a gwella ansawdd dŵr i bawb sy'n ei ddefnyddio;
- darparu amddiffyniad effeithiol i bobl ac eiddo rhag llifogydd o afonydd a'r môr;
- darparu trefniadau digonol i rag-weld llifogydd a rhoi rhybudd amdanynt;
- cynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd;
- datblygu potensial mwynder a hamdden y dyfroedd a'r tir sydd o dan reolaeth yr Awdurdod;
- diogelu a gwella bywyd gwyllt, tirwedd a nodweddion archaeolegol sy'n gysylltiedig â dyfroedd o dan reolaeth yr Awdurdod;
- gwella a chynnal dyfrffyrdd mewndirol a'u cyfleusterau ar gyfer eu defnyddio gan y cyhoedd pan fydd yr Awdurdod yn awdurdod mordwyo;
- sicrhau bod pobl sy'n gollwng i ddyfroedd yn talu'r gost am ganlyniadau'r hyn a ollyngir, a chyn belled â phosibl i adennill y gost o wella amgylchedd dŵr oddi wrth y rheiny sy'n elwa;
- gwella dealltwriaeth y cyhoedd am amgylchedd dŵr a gwaith yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol;
- gwella effeithiolrwydd wrth weithredu swyddogaethau'r Awdurdod a chreu her a chyfle i weithwyr a bod yn ofalus am eu lles.

Foreword

The second Regional Plan finds the Welsh Region developing as an integral part of the emerging national organisation, with many of the Region's officers involved in the development of national initiatives. The effective management of water resources, improvements in water quality and fisheries, and protection from flooding are all essential for the economic and social well-being of the Region. As "Guardians of the Water Environment" we have a clear sense of purpose and the programme of work set out in this plan highlights the key priorities for action. The Region has already demonstrated its commitment to the water environment through the effective enforcement of regulations for all our functions and the public are now aware that we will not hesitate to take whatever measures are necessary to protect and improve the catchments under our control.

In 1991 the NRA will develop the Discharge Charging, Licensing and Abstraction Charging and Fishery Assessment Schemes. In the Welsh Region achievement of many of the proposed targets for Pollution Control is dependent on the early implementation of the Discharge Charging Scheme.

Other initiatives already underway will ensure that aquifers are protected, bathing waters are further improved and barrage developments are carefully audited. Flood defences will continue to be improved and in particular a review of sea defences has been completed which will be implemented from 1991. Development of a major new fish hatchery in South Wales will be progressed and a programme of fish pass construction continues.

The efficiency of the Region is greatly enhanced by the major computer networked information systems which have been developed and which will be further expanded over the next few years.

The Region has also made a strong commitment to the Welsh Language and has developed the AAC (Awdurdod Afonydd Cenedlaethol) symbol which is now seen alongside the NRA logo. It has also implemented an ambitious staff training programme, ensuring that Welsh speakers are available to respond to any enquiry from the public.

Much has already been achieved by our dedicated professional staff; much remains to be achieved over the years ahead.

Dr John Stoner
Regional General Manager

Key Achievements 1990/91

During 1990/91 the Region built on the solid foundation laid by the creation of the NRA, largely as a result of the enthusiasm, dedication and professionalism of our staff. The following represent just a few of the key achievements of 1990/91:

- the Region has continued to adopt a robust approach to enforcement and successful prosecutions have been made for water resources, fisheries and pollution offences. In particular the first NRA prosecution for a litter offence and also the first prosecution of a WSPLC for discharge consent failure were brought in the Welsh Region;
- operating manuals were produced for the management of river regulating reservoirs owned by Welsh Water, under joint agreement with the NRA;
- validation of major discharges for the Annual Charging for Discharging Scheme and implementation of the Application Charging Scheme were completed;
- strategies for the determination of deemed consents and for the prioritisation of sewage treatment works remedial measures have been developed and will be implemented in 1991;
- the review of flood warning procedures in line with the national Scheme was completed in September 1990;
- following the Towyn flooding in February 1990, a major survey of all sea defences, including tidal defences landward of the Schedule 4 Boundary, was completed;
- refurbishment of two major hatcheries was undertaken and over 600,000 salmonids were stocked into the Region's rivers;
- a new lease and management arrangements have been agreed for the long-term development of the Canolfan Tryweryn White Water Centre.

Rhagair

Yn yr ail Gynllun Rhanbarthol gwelir Rhanbarth Cymru'n datblygu fel rhan integredig o'r Corff Cenedlaethol sy'n tyfu, a nifer o'r Swyddogion Rhanbarthol yn ymwneud â datblygu mentrau Cenedlaethol. Mae rheoli adnoddau dŵr yn effeithiol, gwella ansawdd dŵr a physgodfeydd a diogelu rhag llifogydd i gyd yn hanfodol i les economaidd a chymdeithasol y Rhanbarth. Fel "Diogelwyr yr Amgylchedd Dŵr", mae gennym syniad clir am ein diben, ac mae'r rhaglen waith sydd wedi ei gosod allan yn y cynllun hwn yn tynnu sylw at y blaenoriaethau gweithredu allweddol. Mae'r Rhanbarth eisoes wedi dangos ei ymrwymiad i'r amgylchedd dŵr drwy orfodi'n llwyddiannus y rheoliadau ar gyfer ein holl swyddogaethau, ac erbyn hyn mae'r cyhoedd yn gwybod na fyddwn yn petruso rhag cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i ddiogelu a gwella'r dalgylchoedd o dan ein rheolaeth.

Ym 1991 bydd yr AAC yn datblygu'r Cynlluniau Taliadau Gollwng, Taliadau Trwyddedu a Thynnu ac Asesu Pysgodfeydd. Yn Rhanbarth Cymru bydd llwyddo i gyrraedd llawer o'r targedau a awgrymir ar gyfer Rheoli Llygredd yn dibynnu ar allu gweithredu'r Cynllun Taliadau Gollwng yn fuan.

Bydd mentrau eraill sydd eisoes ar y gweill yn sicrhau bod acwifferau'n cael eu diogelu, dyfroedd ymdrochi'n cael eu gwella eto a chadw llygad ofalus ar ddatblygiadau argae. Parheir i wella amddiffyn rhag llifogydd, ac yn arbennig mae arolwg o amddiffynfeydd môr wedi ei gwblhau a gaiff ei weithredu o 1991. Bydd datblygu deorfa fawr newydd yn Ne Orllewin Cymru yn mynd yn ei flaen, a'r rhaglen o adeiladu llwybrau pysgod yn parhau. Mae systemau gwybodaeth rhwydwaith mawr ar gyfrifiadur wedi eu datblygu i wneud y Rhanbarth yn fwy effeithiol, a chânt eu hehangu ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Rhanbarth hefyd wedi gwneud ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg ac wedi datblygu'r arwyddlun AAC (Awdurdod Afonydd Cenedlaethol), sydd i'w weld ochr yn ochr â'r arwyddlun NRA. Mae hefyd wedi gweithredu rhaglen uchelgeisiol i hyfforddi staff, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ateb unrhyw ymholiad gan y cyhoedd.

Mae llawer eisoes wedi ei wneud gan ein staff ymroddedig a phroffesiynol; mae llawer i'w wneud eto yn y blynyddoedd i ddod.

Dr John Stoner
Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol

Pethau Allweddol a Wnaed ym 1990/91

Yn ystod 1990/91 llwyddodd y Rhanbarth i adeiladu ar y sylfaen a osodwyd wrth greu'r AAC, yn bennaf oherwydd brwdfrydedd, ymroddiad ac agwedd broffesiynol ein staff. Dyma rai yn unig o'r pethau allweddol y llwyddwyd i'w gwneud yn 1990/91.

- mae'r Rhanbarth wedi parhau i fabwysiadu dull grymus o orfodi, a llwyddwyd i erlyn am droseddau adnoddau dŵr, pysgodfeydd a llygredd. Yn arbennig, llwyddwyd i ddod â'r achos cyntaf yn Rhanbarth Cymru am drosedd sbwriel a hefyd yr achos cyntaf o erlyn WSPLC am fethu cael caniatâd i ollwng;
- cynhyrchwyd llawlyfrau gweithredu ar gyfer rheoli cronfeydd dŵr sy'n rheoleiddio afonydd sy'n eiddo i Ddŵr Cymru, drwy gytundeb ar y cyd â'r AAC;
- gorffennwyd cadarnhau'r prif ddefnyddiau gollwng ar gyfer y Cynllun Taliadau Gollwng Blynyddol a gorffennwyd gweithredu'r Cynllun Taliadau am Geisiadau;
- mae strategaethau ar gyfer pennu caniatâd tybiannol a gosod blaenoriaethau ar gyfer dulliau adfer mewn gweithfeydd trin carthion wedi eu datblygu a chânt eu gweithredu ym 1991;
- ym mis Medi 1991 gorffennwyd yr arolwg o drefniadau rhybuddio rhag llifogydd yn unol â'r Cynllun cenedlaethol;
- yn dilyn y llifogydd yn Nhywyn ym mis Chwefror 1990, cwblhawyd arolwg pwysig o'r holl amddiffynfeydd môr, gan gynnwys amddiffynfeydd llawn am y tir â Ffin Atodiad 4;
- gwnaed gwaith adnewyddu mewn dwy ddeorfa fawr, a gosodwyd dros 600,000 o eogiaid ifanc yn afonydd y Rhanbarth;
- mae prydles newydd a threfniadau rheoli wedi eu cytuno ar gyfer datblygu Canolfan Dŵr Gwyn Tryweryn dros gyfnod hir.

Regional Priorities 1991/92

The NRA has clearly defined aims for each of its functions which provide a common framework for the national organisation. Some of the main priorities which will be addressed within the Region, in addition to core work, are summarised below under each functional heading. In fact, much of the work is interdisciplinary and close cooperation between functions is necessary on most environmental matters.

Water Resources:

- to agree with Welsh Water a scheme of management for the conjunctive use sources of South East Wales by March 1992;
- to agree supply zones with statutory water undertakers and agree demands and resources by March 1992;
- to implement the national Abstraction Charging Policy by March 1992.

Pollution Control:

- to ensure that all discharges are validated to allow the implementation of the Charging for Discharges Scheme to schedule and to set up an enquiry desk to deal effectively with all consent queries;
- to implement consenting policy within three months of the definition of National Consenting Policy;
- to implement a routine biological surveillance programme at 1990 River Quality Survey sites by March 1992, and to translate results into the biological component of statutory Water Quality Objectives proposals;
- to increase monitoring levels to comply with the recommendations of the National Policy Working Groups on monitoring.

Flood Defence:

- to carry out a review of the Medium-Term Plan to incorporate the findings of the Sea Defence Survey and to undertake the maintenance work identified by September 1991;
- to develop meaningful levels of service, in accordance with national policy, and to implement the "LANDEC" database and work planning system by April 1992.

Fisheries:

- to prepare a database of fishery owners by September 1991 and to assess fisheries within an appropriate timescale of promotion of Section 28 Orders;
- to reappraise licensing system following national policy decision, and report to the Regional Fisheries Advisory Committee within six months of policy adoption;
- to assist the recovery of declining stocks by the construction of fish passes, culture facilities and habitat enhancement, and to mitigate the effects of major engineering schemes.

Recreation, Conservation and Navigation:

- to survey the principal NRA conservation and recreation sites by December 1991 and derive a programme for integrated management plans by March 1992;
- to bring forward the refurbishment of the Dee Navigation to October 1991 and complete negotiations with external agencies by March 1992.

Support Services:

- to implement the Welsh Language Policy by March 1992;
- to continue with the development of the Region's data communications network such that appropriate local area network technology is installed at all significant sites by the end of 1993 and conversion to a voice/data network is completed by the end of 1994.

Blaenoriaethau Rhanbarthol 1991/92

Mae gan yr AAC amcanion wedi eu diffinio'n glir ar gyfer pob un o'i Swyddogaethau sy'n rhoi fframwaith cyffredinol ar gyfer y corff yn genedlaethol. Gwelir isod rai o'r prif flaenoriaethau y delir â hwy yn y Rhanbarth, yn ogystal â gwaith craidd, o dan bob pennawd swyddogaeth. Yn wir, mae llawer o'r gwaith yn perthyn i sawl disgyblaeth, ac mae angen cydweithrediad agos rhwng swyddogaethau yn y mwyafrif o faterion amgylcheddol.

Adnoddau Dŵr:

- cytuno gyda Dŵr Cymru ar gynllun rheoli ar gyfer ffynonellau defnyddio ar y cyd yn Ne Ddwyrain Cymru erbyn mis Mawrth 1991;
- cytuno ar ardaloedd cyflenwi gydag ymgymerwyr dŵr statudol a chytuno ar y galw a'r adnoddau erbyn mis Mawrth 1992;
- gweithredu'r polisi cenedlaethol ar daliadau tynnu dŵr erbyn mis Mawrth 1992.

Rheoli Llygredd:

- sicrhau bod popeth a ollyngir yn cael ei gadarnhau er mwyn gallu gweithredu'r Cynllun Taliadau Gollwng yn unol â'r amserlen a threfnu desg ymholiadau i ddelio'n effeithiol â phob cwestiwn am ganiatâd;
- gweithredu polisi caniatâd cyn pen tri mis ar ôl diffinio'r Polisi Caniatâd Cenedlaethol;
- gweithredu rhaglen o arolygaeth fiolegol reolaidd mewn safleoedd Arolwg Ansawdd Afonydd 1990 erbyn mis Mawrth 1992, a throi'r canlyniadau'n gyfran fiolegol mewn cynigion statudol Amcanion Ansawdd Dŵr;
- cynyddu lefelau arolygaeth i gydfynd ag argymhellion y Gweithgorau Polisi Cenedlaethol ar arolygu.

Amddiffyn Rhag Llifogydd:

- gwneud arolwg o'r Cynllun Tymor Canolig i ymgorffori canlyniadau'r Arolwg Amddiffynfeydd Môr, a gwneud gwaith cynnal a chadw erbyn mis Medi 1991;
- datblygu Lefelau Gwasanaeth ystyrlon yn unol â'r polisi cenedlaethol, a gweithredu'r gronfa ddata a'r system cynllunio gwaith "LANDEC" erbyn mis Ebrill 1992.

Pysgodfeydd:

- paratoi cronfa ddata o berchnogion pysgodfeydd erbyn mis Medi 1991 ac asesu pysgodfeydd o fewn cyfnod addas o hybu Gorchmynion Adran 28;
- ail-asesu systemau trwyddedu ar ôl penderfynu'r polisi cenedlaethol, a rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Pysgodfeydd cyn pen 6 mis ar ôl mabwysiadu'r polisi;
- cynorthwyo i adfer stoc sy'n dirywio drwy adeiladu llwybrau pysgod, cyfleusterau datblygu a gwella cynefinoedd, a lleddfu effeithiau cynlluniau peirianneg mawr.

Hamdden, Cadwraeth a Mordwyo:

- gwneud arolwg o brif safleoedd cadwraeth a hamdden yr AAC erbyn mis Rhagfyr 1991 a llunio rhaglen ar gyfer cynlluniau rheoli integredig erbyn mis Mawrth 1992;
- symud y gwaith adnewyddu ar gyfer Mordwyo Afon Dyfrdwy ymlaen i fis Hydref 1991 a gorffen trafod gydag asiantaethau allanol erbyn mis Mawrth 1992.

Gwasanaethau Cynnal:

- gweithredu Polisi ar yr Iaith Gymraeg erbyn mis Mawrth 1992;
- parhau i ddatblygu rhwydwaith cyfathrebu data y Rhanbarth fel bod technoleg rhwydwaith ardal leol addas wedi ei gosod ym mhob safle sylweddol erbyn diwedd 1993 a'r gwaith o newid i rwydwaith llais/data wedi ei orffen erbyn diwedd 1994.

Some Key Statistics

Area: 21,300sqkm
Population: 3.1m
Length of main river: 5,673km
Length of estuary: 411.8km
Length of coastline: 1,100km
Flood defence works maintained: 1,180km
Average annual rainfall: 1,334mm
Number of abstraction licences: 4,033
Volume of authorised water abstraction: 30,000Ml/d
Number of consented discharges: 9,348
Number of EC bathing waters: 50
Area of inland lakes: 11.6sqkm
Area of reservoirs: 61.8sqkm

Rhai Ystadegau Allweddol

Arwynebedd: 21,300kmsg
Poblogaeth: 3.1m
Hyd prif afonydd: 5,673km
Hyd aberoedd: 411.8km
Hyd arfordir: 1,100km
Gwaith amddiffyn rhag llifogydd a gynhelir: 1,180km
Cyfanswm glaw ar gyfartoledd: 1,334mm
Nifer trwyddedau tynnu: 4,033
Cyfaint dŵr yr awdurdodir ei dynnu: 30,000M1/d
Nifer gollyngiadau a gafodd ganiatâd: 9,348
Nifer traethau ymdrochi CE: 50
Arwynebedd llynnoedd mewndirol: 11.6kmsg
Arwynebedd cronfeydd dŵr : 61.8kmsg

Welsh Region

The Welsh Region is one of the largest of the ten Regions of the NRA. Scenically it is spectacular, with three National Parks and an outstanding coastline.

With annual rainfall as high as 2,000mm over the mountains of mid and south Wales, and up to 4,000mm in Snowdonia, water resources feature largely within the Region. In addition to supplying the resident population, Regional sources supply large conurbations in the midlands and the north west of England. Many of the large multi-purpose reservoirs are also important centres for recreation. With the high rainfall, however, comes the risk of flooding and the major centres of population, including Cardiff, have defences to protect them from severe events.

Land use within the Region is particularly diverse. In the mountainous areas, hill grazing and afforestation are the main uses and acidification of runoff is the main environmental issue. In the more fertile agricultural areas of Pembrokeshire and Herefordshire, strong farm effluents and diffuse inputs of nutrients and pesticides are the main concern. In the industrialised areas of South Wales, Wrexham and Deeside, trade effluents present a serious potential for pollution.

Recreation and tourism figure largely in the economy of the region. The Wye is the principal salmon river of England and Wales and most of the rivers provide excellent fishing for both salmon and sea trout.

Rhanbarth Cymru

Rhanbarth Cymru yw un o'r mwyaf o ddeg Rhanbarth yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol. O ran harddwch mae'n drawiadol, gyda thri Pharc Cenedlaethol ac arfordir eithriadol o hardd.

Bydd cymaint â 2,000mm o law yn disgyn ar fynyddoedd canolbarth a de Cymru a hyd at 4,000mm yn Eryri, ac felly mae adnoddau dŵr yn bwysig yn y Rhanbarth. Yn ogystal â darparu ar gyfer y trigolion, mae adnoddau dŵr y Rhanbarth yn darparu hefyd ar gyfer ardaloedd poblog canolbarth a gogledd orllewin Lloegr. Mae llawer o'r cronfeydd dŵr mawr aml-bwrpas hefyd yn ganolfannau hamdden pwysig. Ond gyda'r glaw trwm daw perygl llifogydd, ac mae gan y mannau mwyaf poblog i gyd, gan gynnwys Caerdydd, amddiffynfeydd i'w diogelu rhag y digwyddiadau gwaethaf.

Ceir amrywiaeth helaeth yn y ffordd y defnyddir tir yn y Rhanbarth. Yn yr ardaloedd mynyddig pori defaid a phlannu coedwigoedd yw'r prif ddefnydd tir ac asideiddio'r afonydd yw'r prif bwnc amgylcheddol. Yn yr ardaloedd amaethyddol gwell yn Sir Benfro a Swydd Henffordd y prif ofid yw elifiant cryf o ffermydd a defnyddiau maeth a phlaleiddiaid yn llifo i'r afonydd. Mae datblygiad diwydiannol, wrth gwrs, wedi ei ganoli ar gymoedd De Cymru ac o gwmpas ardaloedd Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Yn yr ardaloedd hyn mae elifiant diwydiannol yn broblem fawr ac fe allai achosi llygru difrifol.

Mae hamdden a thwristiaeth yn amlwg iawn yn economi'r Rhanbarth. Afon Gwy yw'r brif afon eog yng Nghymru a Lloegr ac mae mwyafrif yr afonydd yn fannau pysgota gwych ar gyfer eog a sewin.

Regional Organisation

Each Region of the NRA is managed by a Regional General Manager who reports to the Operations Director and whose management team has responsibility for managing the main functions and support services in the Region. Welsh Region employs a total of some 750 people.

There are three statutory Committees per Region through which the NRA achieves a wide base of consultation. These are a Regional Flood Defence Committee (through which the NRA discharges its flood defence and land drainage duties), a Regional Rivers Advisory Committee and a Regional Fisheries Advisory Committee (these two committees being composed of members from a wide range of relevant backgrounds who advise the NRA on river basin management and fisheries policy respectively).

In addition, each Region has a Regional Advisory Board, on which the RGM and the three statutory Committee Chairmen sit. This is chaired by the NRA Board Member with responsibility for that Region.

Regional General Manager
Dr John Stoner
Regional Board Member
Prof Ron Edwards
Regional Flood Defence Committee Chairman
Murray McLaggan
Regional Rivers Advisory Committee Chairman
Prof Mick Bruton
Regional Fisheries Advisory Committee Chairman
Lord Moran

Activities Requiring NRA Consent

Certain activities require NRA consent. The list is too long to include here, but the following are examples:

- abstract or impound water;
- make a discharge to any river, lake or tidal water or onto land for a soakway, or to specific underground waters;
- clean or desludge a dam, weir or sluice;
- culvert any watercourse;
- interfere with land drainage by building or modifying any structures within or adjacent to a main river;
- build or plant within eight metres of a main river;
- introduce or transfer fish into any water or use a net or trap to catch fish;
- use a rod and line to catch fish;
- use a boat on a waterway controlled by the NRA;
- interfere with a sea defence.

Public Register Access

The public registers of abstractions and discharges are available for inspection at the Regional Head Office during normal working hours.

Where to Contact Us: Regional Headquarters & South Eastern Divisional Office

Rivers House
St Mellons Business Park
St Mellons
Cardiff
South Glamorgan CF3 OLT
Tel: (0222) 770088
Fax: (0222) 798555

24-hour telephone number: (0222) 770088

Copies of the full Corporate Plan are available @ £12 per copy from:
Advertising Services
Unit 13
Lancaster Way Business Park
Ely, Cambs CB6 3NP

Cheques should be made payable to 'National Rivers Authority'.

Trefniadaeth Ranbarthol

Rheolir pob rhanbarth o'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol gan Reolwr Cyffredinol Rhanbarthol sydd yn atebol yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae gan ei dîm o reolwyr gyfrifoldebau am reoli'r prif swyddogaethau a'r gwasanaethau cynhaliol yn y Rhanbarth. Cyflogir tua 750 o bobl gan Ranbarth Cymru.

Mae tri Phwyllgor statudol ym mhob Rhanbarth sy'n rhoi cyfle i'r AAC ymgynghori'n eang. Y rhain yw'r Pwyllgor Rhanbarthol ar Amddiffyn rhag Llifogydd (mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau diogelu rhag llifogydd a thraenio tir trwy'r pwyllgor hwn), y Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Pysgodfeydd a'r Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Afonydd (mae'r ddau bwyllgor hwn yn cynnwys aelodau gyda chefndir perthnasol eang sy'n cynghori'r Awdurdod ar reoli basnau afonydd, a pholisiau pysgodfeydd).

Yn ychwanegol mae gan bob Rhanbarth Fwrdd Ymgynghorol Rhanbarthol, sy'n cynnwys y Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol a thri Chadeirydd y Pwyllgorau statudol. Cadeirydd y Pwyllgor hwn yw Aelod o Fwrdd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol sy'n gyfrifol am y Rhanbarth.

Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol:
Dr John Stoner
Aelod Rhanbarthol o'r Bwrdd:
Athro Ron Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd:
Murray McLaggan

Cadeirydd y Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Afonydd:
Athro Mick Bruton
Cadeirydd y Pwyllgor Rhanbarthol Ymgynghorol Psygodfeydd:
Arglwydd Moran

Gweithgareddau sy'n Golygu Gorfod cael Caniatâd yr AAC

Mae angen caniatâd yr Awdurdod an rai gweithgareddau. Mae'r rhestr yn rhy faith i'w chynnwys yma, ond dyma rai enghreifftiau:

- tynnu neu gymryd dŵr;
- gollwng i unrhyw afon, llyn neu ddŵr llanw neu ar dir iddo gael suddo i'r tir, neu i ddyfroedd penodol o dan y ddaear;.
- glanhau neu dynnu llaid o argae, cored neu lifddor;
- gwneud cwlfert ar unrhyw gwrs dŵr;
- ymyrryd ag unrhyw draenio tir drwy adeiladu neu addasu unrhyw adeiladau o fewn neu yn agos at brif afon;
- adeiladu neu blannu o fewn wyth metr i brif afon;
- cyflwyno neu drosglwyddo pysgod i unrhyw ddyfroedd neu ddefnyddio rhwyd i drapio neu ddal pysgod;
- defnyddio gwialen a lein i ddal pysgod;
- defnyddio cwch ar ddyfrffordd a reolir gan yr AAC;
- ymyrryd ag amddiffynfa fôr.

Cyfle i weld Cofestri Cyhoeddus

Mae'r cofrestri cyhoeddus o dynnu dŵr a gollwng i afonydd ar gael i'w harchwilio yn y Brif Swyddfa Ranbarthol yn ystod oriau gwaith arferol.

Ble i Gysylltu â Ni: Prif Swyddfa Ranbarthol a Swyddfa Leol y De Ddwyrain

Plas Yr Afon
Parc Busnes Llaneirwg
Llaneirwg
Caerdydd
De Morgannwg CF3 OLT
Tel: 0222-770088
Ffacs: 0222-798555

Rhif teleffon 24-awr mewn argyfwng: 0222-770088

Mae copiau o Gynllun Corfforaethol Cyflawn yr AAC i'w cael am @ £12 y copi oddi wrth:
Advertising Services
Unit 13
Lancaster Way Business Park
Ely, Cambs CB6 3NP

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i'r 'Awdurdod Afonydd Cenedlaethol'.